



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service

Adran Rheoli Tân ar y Cyd Recriwtio 2021



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

Gweithredwyr Rheoli Tân ar y Cyd Cwestiynau ac Atebion Cyffredin

Pa oriau ydych chi'n gweithio?

Rydym yn gweithio system sifftiau sy'n cynnwys sifftiau dydd 2 x 10.5 awr, sifftiau nos 2 x 13.5 awr ac yna 4 diwrnod i ffwrdd.

Ar hyn o bryd mae Shifts fel a ganlyn: 0730 - 1800 a 1800 – 0730.

Mae hyn yn cyfateb i 42 awr yr wythnos. Ceir tâl am bob egwyl.

Ydy'r sifftiau'n hyblyg?

Mae staff yn gweithio patrwm rota sefydlog, ond mae'n bosibl gwneud cais i gyfnwid shiftt.

Faint yw'r cyflog?

Ar hyn o bryd, y cyflog yw £22641 yn ystod hyfforddiant cychwynnol, £23585 wrth gymhwyso ac yn codi i £30179 ar ôl cymhwyso.

Gaf i weithio'n rhan-amser?

Unwaith y byddwch chi wedi cymhwyso, mae'n bosibl gwneud cais am oriau rhan-amser.

Faint o amser mae'n ei gymryd i ddod yn gymwys?

Mae'r cymhwyster ar ffurf portffolio sy'n seiliedig ar gymhwysedd NVQ ac, o ddyddiad cychwyn eich cyflogaeth, bydd yn cymryd tua 2.5 flynedd i'w gwblhau.

Pa hyfforddiant fydda i'n cael ei roi?

Mae'r hyfforddiant cychwynnol yn digwydd mewn sefyllfa sy'n debyg i ystafell ddosbarth a bydd yn cynnwys hyfforddiant damcaniaethol ac ymarferol. Mae hyn yn para am 7 wythnos a byddwch chi'n gweithio o Ddydd Llun i Ddydd Gwener. Ceir asesiad ymarferol a damcaniaethol ar ddiwedd pob wythnos. Bydd cam nesaf yr hyfforddiant yn digwydd 'wrth eich gwaith' a bydd yn para tua 10 wythnos. Mae cam olaf yr hyfforddiant yn para tua 2 flynedd ac mae'n cynnwys cwblhau portffolio o dystiolaeth sy'n seiliedig ar gymhwysedd. Unwaith y byddwch chi wedi cymhwyso, bydd yr holl staff yn dilyn rhaglen hyfforddiant barhaus.

Pa fath o alwadau 999 ydych chi'n eu cymryd?

Cymerir galwadau yn ymwneud â sefyllfaoedd amrywiol gan gynnwys tanau mewn tai, ffatrïoedd, llifogydd, tanau glaswellt, tanau sbwriel, gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, digwyddiadau yn ymwneud â chemegau, anifeiliaid yn sownd, trychinebau byd natur, gweithgarwch terfysgol a larymau tân.

Beth yw'r galwadau mwyaf gofidus a gewch?

Yn gyffredinol, daw'r galwadau hyn gan bobl sy'n methu dianc ac mae ofn arnynt. Gallant fod mewn tân, dŵr llifogydd, cerbyd ar ôl gwrthdrawiad ffordd, neu dan beiriannau neu mewn lleoliad peryglus. Mae'n bwysig eich bod yn aros yn ddigynnwrf, yn cynnig sicrwydd, yn rhoi cyngor a fydd yn helpu i'w cadw'n ddiogel yn ogystal â chasglu gwybodaeth a fydd yn gymorth wrth eu hachub.

Ar wahân i ateb galwadau 999, a ydych yn gwneud unrhyw beth arall?

Rydyn ni'n gwneud llawer o bethau eraill. Rydym yn danfon y peiriannau tân a'r swyddogion tân priodol ar gyfer lleoliad a'r math o ddigwyddiad, rydym yn rhoi gwybod i swyddogion tân am ddigwyddiadau, rydym yn cadw mewn cysylltiad â pheiriannau tân a swyddogion tân drwy system radio, rydym yn cofnodi'r holl weithgarwch y digwyddiadau mewn logiau digwyddiadau, rydym yn olrhain lleoliad yr holl offer a swyddogion tân, rydym yn cysylltu â gwasanaethau brys a gwasanaethau cyhoeddus eraill, rydym yn profi offer ac rydym yn cael hyfforddiant parhaus i gynnal ein sgiliau a'n gwybodaeth.

Faint o wyliau blynyddol allaf gael?

Byddwch chi'n cael 8 diwrnod o wyliau cyhoeddus, er na ellir eu cymryd bob amser ar y diwrnod ei hun. Mae gennych hawl hefyd i 30 diwrnod gwyliau blynyddol y flwyddyn. Mae rhai o'r rhain yn cael eu cymryd ar ddiwrnod gorffwys felly mae'n cyfateb i gael 21 sifft i ffwrdd bob blwyddyn.

Oes rhaid i mi weithio ar ddyddiau gŵyl megis y Nadolig neu Eid?

Nid yw'r adran Rheoli Tân ar y Cyd byth yn cau felly disgwylir i'r staff weithio eu sifftiau penodol bob diwrnod o'r flwyddyn.

Beth yw adegau prysuraf y flwyddyn?

Mae adegau prysuraf y flwyddyn yn cynnwys cyfnod Noson Guto Ffowc, yn ystod stormydd difrifol pan ddaw lawer o alwadau am eiddo a ffyrdd dan lifogydd, ac yn ystod cyfnodau sych pan ddaw lawer o alwadau i fynychu tanau glaswellt, sbwriel a thanau gwyllt.

Fyddda i'n cael tâl salwch?

Byddwch, telir tâl salwch.

Sut mae gwneud cais?

Dilynwch y ddolen i'n [system e-recriwtio](#) a gwnewch gais ar-lein.

Oes rhaid i mi wisgo gwisg?

Oes, darperir gwisg ysgol a rhaid ei gwisgo'n gywir tra byddwch ar ddyletswydd.

Ble fydda i'n gweithio?

Byddwch chi'n gweithio ym Mhencadlys Heddlu De Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Gyda phwy fydda i'n gweithio?

Byddwch chi'n gweithio gyda staff Rheoli Tân ar y Cyd eraill a gydleolir yn yr un ystafell â gweithredwyr argyfwng Heddlu De Cymru.

Oes angen i mi allu siarad Cymraeg i wneud cais?

Nac oes, mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol.

Pa sgiliau sydd eu hangen arnaf i wneud y gwaith?

Ymhlith y sgiliau niferus sydd eu hangen arnoch, rhaid i chi allu: fod yn hyblyg, aros yn ddigyffro, siarad yn glir, gwrando, meddwl yn gyflym, datrys problemau, gweithredu yn ôl cyfarwyddyd, teipio ar gyflymder o 35 gair y funud a gweithio mewn amgylchedd cyfrifiadurol.

Beth sy'n digwydd adeg recriwtio?

Ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio, bydd pob cais yn cael ei ystyried gan banel llunio rhestr fer.

Gwahoddir yr ymgeiswyr sy wedi bodloni'r meini prawf llunio rhestr fer i gymryd prawf gallu llafar a rhifiadol yn ogystal â phrawf teipio byr.

Bydd ymgeiswyr sy'n pasio'r ddau brawf hyn yn cael eu gwahodd i fynychu rownd derfynol o brofion a fydd yn cynnwys cyfweiliad a phrawf galwad ffôn (sylwer bod cynnwys y cam olaf yn agored i newid).

Bydd ymgeiswyr sy'n pasio'r cam hwn yn cael eu rhoi ar restr daliadau ac unwaith y bydd swydd wag ar gael byddant yn cael eu gwahodd i fynychu meddyg. Bydd hefyd yn ofynnol iddynt lenwi 'ffurflen lawn lefel 2 fetio personél nad ydynt yn rhan o'r heddlu'.

Bydd ymgeiswyr sy'n pasio'r ddau brawf hyn yn cael eu gwahodd i fynychu rownd derfynol o brofion a fydd yn cynnwys cyfweiliad a phrawf galwad ffôn (sylwer y gallai cynnwys y cam olaf newid). Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam hwn yn cael eu rhoi ar restr ddal ac unwaith y bydd swydd wag ar gael byddant yn cael eu gwahodd i fynychu prawf meddygol. Bydd hefyd yn ofynnol iddynt lenwi ffurflen lawn (FPNH) lefel 2 'fetio personél nad ydynt yn perthyn i'r heddlu'.

Faint o swyddi gwag sydd ar gael?

Bydd pob ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei roi ar restr ddal a chysylltir â nhw wrth i swyddi godi.